
# Bwyð i Feððwl

Diweððariað COVID-19 gan Fwrðð Diwyðiant Bwyð a Dioð Cymru


10 Ebrill 2020



“Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn bodoli i hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru ac mae'r argyfwng digynsail presennol a achosir gan COVID-19 wedi dangos bod y rôl honno'n fwy hanfodol nawr nag erioed. Nod y diweddariad hwn gan y Bwrdd yw darparu gwybodaeth reolaidd a chryno i'r diwydiant ac yn hollbwysig, a chyfeirio pobl at y wybodaeth sydd ei hangen ar hyn o bryd.

Rydym yn gweithio'n galed i helpu i ddod o hyd i atebion ymarferol ac i frwydro dros ddiwydiant Bwyd a Diod Cymru ar bob lefel. Mae ein perthynas ragorol â Llywodraeth Cymru yn bwysig dros ben, ond rydym hefyd yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn San Steffan ar faterion a gadwyd yn ôl a hefyd gan y cymdeithasau masnach allweddol.

Rydym yn cydnabod bod amseroedd yn eithriadol o anodd i lawer iawn o fusnesau yn y sector ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn eich annog i gadw mewn cysylltiad fel y gallwn rannu'r safbwyntiau hanfodol y diwydiant gyda’r Llywodraeth a pharhau i frwydro dros eich busnes a'n sector bwyd a diod. "

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**

## Camau allweððol o’r wythnos

*rhai gweithreðoeðð onð nið pob un


- Trwy gydol yr wythnos, rydym wedi cynnal galwadau cynadledda dyddiol gydag aelodau ein Bwrdd ac uwch gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at a thrafod meysydd allweddol o'r diwydiant sydd wedi cael eu effeithio gan Covid-19.
- Rydym wedi bod wrthi'n gwrando ar leisiau'r diwydiant ac yn rhannu'r pryderon a'r profiadau a fynegwyd gan fusnesau yn ystod coronafeirws gyda Gweinidogion a llunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a materion heb eu datganoli gyda San Steffan.
- Rydym wedi derbyn galwadau ffôn gan fusnesau bwyd a diod ledled Cymru yn rhannu eu pryderon ynghylch pandemig y coronafeirws a'r effaith y mae'r feirws eisoes wedi ei chael ar fusnesau. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i gysylltu busnesau â'r cymorth a’r arweiniad gorau sydd ar gael yn ystod yr amseroedd hyn.
- Gan weithio gydag arweinwyr clystyrau, rydym wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau clwstwr a chyfarfodydd ar faterion sector- benodol yn y diwydiant bwyd a diod. Rydym wedi bod yn cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a llunwyr polisi am y ffordd orau ymlaen i ddatrys y materion sector-benodol hyn.
- Ar ôl cyflwyno'r rheol dau fetr i ddiogelu gweithwyr yng Nghymru rhag y coronafeirws ar 7 Ebrill, rydym wedi bod yn gwrando ar fusnesau ar draws y diwydiant ar eu prif bryderon gyda'r gyfraith newydd hon. Rydym wedi bod yn bwydo'r wybodaeth hon i'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda thîm Arloesi Bwyd Cymru ar arolwg i'w rannu gyda busnesau bwyd a diod yng Nghymru er mwyn ddeall anghenion y diwydiant yn well a phenderfynu ar yr penderfyniadau gorau i ddatrys y problemau y mae llawer o fusnesau yn eu hwynebu ar hyn o bryd.
- Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn deall fod gan lawer o fusnesau bwyd a diod angen brys i ddod o hyd i weithwyr ychwanegol, tra bod eraill yn cael trafferth cadw eu gweithlu oherwydd dirywiad yn y gwasanaeth bwyd neu'r farchnad allforio. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi creu Grŵp Facebook - Cydweithredu Gweithlu Bwyd a Diod Cymru - i annog busnesau i gydweithio a rhannu adnoddau.
- Rydym wedi bod yn rhannu adnoddau Llywodraeth Cymru, pecynnau cymorth iechyd meddwl a gwybodaeth bwysig arall ar ein cyfrif Twitter. Yn fwy diweddar, rydym wedi creu tudalen LinkedIn lle mae gwybodaeth debyg wedi cael ei rhannu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y ddau i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

## Prif straeon newyððion yr wythnos


- Siopau groser, cig, bara a chwmnïau bwyd eraill yn y gogledd sy'n danfon cynnyrch i gartrefi
- Iechyd Meddwl yn y Gwaith: Coronafeirws ac ynysu – cefnogwch eich hun a'ch cydweithwyr
- Beth sy'n digwydd i werthiannau archfarchnadoedd y DU yn ystod argyfwng y coronafeirws?
- Y cyflenwyr bwyd a diod sy'n cyflogi staff newydd i ymdopi â coronafeirws

## Cymorth COVID-19

Cliciwch ðrwoðð i gael gwyboðaeth ychwanegol am yr aðnoððau syðð ar gael





## Lleisiau o'r ðiwyðiant

Gyða Huw Thomas o Puffin Proðuce





Ers y 1970au, mae Puffin Produce wedi bod yn falch o wasanaethu Cymru gyda'r tatws a'r llysiau tymhorol Cymreig wedi’u tyfu, eu pigo a'u pacio yn Sir Benfro. Rydyn ni’n cyflenwi 80% o datws sydd ar silffoedd archfarchnadoedd Cymru sy'n golygu taw ni yw cyflenwr cynnyrch ffres mwyaf yng Nghymru.

Fel un o brif gyflenwyr archfarchnadoedd yng Nghymru, rydyn ni'n ymwybodol o'r pryderon a'r pwysau sy'n deillio o’r pandemig coronafeirws a'i effaith ar y diwydiant bwyd. Er mwyn cadw cenedl Cymru yn cael ei bwydo ac i gadw ein staff yn ddiogel, rydyn ni wedi newid y ffordd rydym yn gweithio ac wedi rhannu ein gweithwyr yn bymtheg o dimau gwahanol tra hefyd yn gweithredu pellter dau fedr rhwng cydweithwyr. Mae cyfrifoldeb arnom i gyflenwi'r archfarchnadoedd â'r cynnyrchion sydd eu hangen ar boblogaeth Cymru, ond mae dyletswydd foesol arnom i ofalu am iechyd a lles emosiynol ein gweithwyr.

Ein blaenoriaeth hefyd yw tarfu cyn lleied â phosibl ar y gadwyn cyflenwi bwyd. Wrth neud hynny, rydyn ni wedi traws-hyfforddi nifer o'n gweithwyr er mwyn sicrhau mwy o wytnwch ar draws y cwmni. Rydyn ni'n ymwybodol o'r goblygiadau a all ac a fydd yn deillio o'r pandemig hwn, ond rydyn ni'n hyderus y bydd y mesurau rydym wedi’u rhoi ar waith o fudd i Gymru gyfan, o'n gweithwyr i'r archfarchnadoedd a'n heconomi leol.

Yn Puffin Produce, rydyn ni'n deall bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob busnes bwyd a diod yn cael cymorth drwy gydol y cyfnod anodd hyn ac rydym yn gobeithio trwy cydweithio a'r Llywodraeth, y bydd ein heconomi'n ymadfer ac yn tyfu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r argyfwng.

Caðwch mewn cysylltiað am ððiweððariaðau

Ymunwch â'n Grŵp Facebook i rannu gweithluoeðð

Cysylltwch â ni: Chair.FDWIB@gov.wales